

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mercher, 1af Mawrth, 2023 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor Armand Watts (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)  
  
County Councillors: Jill Bond, Steven Garratt,  
Penny Jones, Dale Rooke and Frances Taylor

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Sharran Lloyd, LSB Development Manager  
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a  
Llywodraethiant  
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad  
Andrew Mason, Project Officer ASB  
Christian Schmidt, Swyddog Cynllunio a Pholisi  
Trafnidiaeth  
John Crandon, Community Safety Officer

**APOLOGIES:** County Councillors Jan Butler and Malcolm Lane

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Dim,

### 2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

### 3. Cynllun Lles Gwent Drafft

Cyflwynodd y swyddogion ddrafft Gynllun Lles Gwent ac esbonio y cafodd y cynllun ei ddiwygio yn dilyn craffu yn y cyfarfod blaenorol ac y gofynnir i bob un o'r pump Cyngor yn ardal Gwent ei gymeradwyo, er mai dim ond Sir Fynwy oedd wedi dewis ei graffu cyn ei fabwysiadu.

#### Her:

- *Mae'r ddogfen hon yn darllen fel unrhyw ddogfen gyffredinol arall ac nid yw'n teimlo ei bod yn berthnasol o gwbl i ardal Gwent. Mae'n teimlo fel datganiad o fwriad strategol, oherwydd y medrid canfod yr amcanion mewn unrhyw fan arall.*
- *Os yw hyn yn gynllun, pam nad yw'n cynnwys unrhyw gamau gweithredu neu amserlenni i ni fonitro cyflenwi'r amcanion? Mae'n teimlo'n ysgafn iawn o ran sylwedd ac mae'n amheus sut y gellid ei ddefnyddio i werthuso perfformiad y bwrdd i gyflawni'r amcanion.*
- *I ba raddau mae pob swyddog yn y bartneriaeth wedi cymryd rhan yn hyn ac yn nhermau'r broses llywodraethiant, lle caiff hyn ei gyflwyno ac a yw cynghorau eraill wedi ei graffu?*

- *Nid oes unrhyw gyfeiriad at ffactorau diweddar sy'n cael effaith fawr ar bobl, tebyg i'r cynnydd mewn costau ynni a'r cynnydd mewn costau byw. Pryd y cafodd hyn ei lunio? A roddir ystyriaeth i'r ffactorau hyn i'w wneud yn fwy perthnasol a realistig?*
- *Mae wyth egwyddor Marmot yn amrywio'n sylweddol ond i ba raddau mae'r cynllun yn cwmpasu eu hysbryd a'u hethos ac ar ba sail y cânt eu mesur?*
- *Sut mae'r cynllun hwn yn alinio gyda ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol i sicrhau amcanion a darpariaeth cydnaws?*

### **Ymateb Swyddog:**

Diolch am eich adborth, y byddwn yn ei gyfleu yn ôl, gan ddeall y dymunwch hysbysu'r Arweinydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffurfiol am hyn. Mae egwyddorion Marmot yn rhan o ddarn ehangach o waith sy'n mynd rhagddo gyda'r Sefydliad Iechyd a Thegwch i ddeall y camau gweithredu y gall y bwrdd eu cymryd i wella cydraddoldeb yn y rhanbarth, felly bydd argymhellion penodol yn deillio o'r adroddiad a ddylai wedyn cael eu hymwreiddio yn y cynllun hwn. Bydd mwy o gynlluniau cyflenwi a ddylai roi ystyriaeth i'r argymhellion hynny gyda chamau gweithredu penodol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ganolbwyntio arnynt. Gall y Pwyllgor hwn graffu ar y cynlluniau cyflenwi hynny er mwyn dal y Bwrdd i gyfrif am gyflenwi y cynllun ehangach.

Mewn cyfeiriad at y cwestiynau am y dystiolaeth a lywiodd y cynllun hwn, defnyddiwyd Asesiad Llesiant Gwent a ddatblygwyd gan swyddogion ar draws y bartneriaeth, i lywio'r cynllun gwaith. Bydd gwaith yr Athro Marmot i drin tegwch yn dod ag arbenigedd a dirnadaeth i'r Bwrdd i lywio'r cynlluniau cyflenwi. Bu'r arbenigwyr yn bresennol ym mhob un o'r siroedd yn siarad gyda phobl i ddefnyddio'r wybodaeth i lywio eu gwaith.

Yn nhermau i ba raddau y bydd aliniad rhwng ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol a'r cynllun hwn, gan mai'r Asesiad Llesiant yw'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y ddau, dylai fod cysylltiad clir rhwng y camau gweithredu yng nghynllun cyflenwi Sir Fynwy â'n hamcanion yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

Yng nghyswllt y broses llywodraethiant, eir â'r drafft gynllun hwn i bob un o'r pump Cyngor iddynt ei gymeradwyo, fodd bynnag, Sir Fynwy yw'r unig gyngor sy'n cynnal craffu cyn gwneud penderfyniad. Cafodd hefyd ei anfon at bob cyngor tref a chymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd craffu parhaus drwy swyddogaeth craffu rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hollbwysig a hefyd graffu gan y pwyllgor hwn ar gyflwyno cynllun cyflenwi Sir Fynwy.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym wedi craffu ar hyn ddwywaith ac yn siomedig fod y cynllun yn dal i ddarllen fel cynllun cyffredinol heb ddigon o ddyfnder, a allai fod yn ymwneud ag unrhyw le, heb unrhyw ymdeimlad o le na chyd-destun lleol. Teimlwn fod diffyg cyfeiriad at yr hinsawdd economaidd cyfredol a'r anawsterau sy'n wynebu pobl oherwydd cynnydd mewn costau ynni a'r argyfwng costau byw.

Rydym yn bryderus i ba raddau y cafodd y cynllun hwn ei lunio gan y bartneriaeth. Mae'r cynllun yn teimlo fel cynllun a ddatblygwyd ar wahân gan un awdurdod, yn hytrach na bod cytundeb ar y cyd ar gyfeiriad strategol y dyfodol. Os na chafodd y cynllun ei ddatblygu ar y cyd gan

bartneriaid, rydym yn bryderus na fydd efallai gydberchnogaeth ar draws y bwrdd ac y gall hynny effeithio ar gyflenwi ei amcanion.

Rydym hefyd yn bryderus iawn na chafodd ei graffu gan yr awdurdodau eraill sy'n bartneriaid yng Ngwent ac na chafodd ei graffu gan Bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent, nad yw wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf hyd yma, gan felly godi cwestiwn am ddilysrwydd y cynllun a'r broses llywodraethiant. Fel yr unig Bwyllgor Craffu sydd wedi cynnal craffu ar y cynllun hwn cyn gwneud penderfyniad, teimlwn ei fod yn rhy unochrog os mai dim ond ni sydd yn craffu arno, er y nodwn y gofynnwyd i'r pump Cyngor arall ei gymeradwyo. I gloi, cwestiynwn werth 'cydweithrediad', os nad ydym yn 'cydweithredu'.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Awdurdod i dynnu sylw at bryderon y pwyllgor.

#### **4. Gwasanaethau Bysiau Stagecoach**

Dyweddodd y Cadeirydd fod Stagecoach yn anffodus wedi gwrthod mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd y Cadeirydd, gan mai gwaith y Pwyllgor Craffu yw gwasanaethu'r gymuned, gyda Stagecoach yn darparu gwasanaethau i'r gymuned, mae'n siomedig iawn nad oeddent yn fodlon cael sgwrs agored am yr heriau a wynebir gan ddarparwydd masnachol wrth ddarparu cludiant mewn sir wledig mewn sefyllfa o gyllid gostyngol gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd fod Stagecoach yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau mewn ysgrifen a chytunodd y Pwyllgor y byddant yn dilyn yr opsiwn hwn.

Dyweddodd Rheolwr Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy wrth yr aelodau fod problemau tymor byr a hirdymor gyda darpariaeth trafndiaeth. Y broblem tymor byr yw fod y cyllid ychwanegol a roddwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig i gyllido gwasanaethau i ddod i ben a'r broblem tymor hirach yw fod gan Sir Fynwy fel sir wledig bryderon am drafnidiaeth hyd yn oed cyn y pandemig. Cytunodd y swyddog i baratoi adroddiad am gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol i hysbysu'r Pwyllgor fel y gallent wedyn gyfleu eu pryderon yn ysgrifenedig i Stagecoach **(Gweithredu: Christian Schmidt)**.

#### **5. Troseddau casineb yn Sir Fynwy**

Cyflwynodd y Tîm Diogelwch Cymunedol y data ar gyfer troseddau casineb a gyflawnwyd yn Sir Fynwy, gan nodi:

- Bu gostyngiad bach mewn troseddau casineb a adroddwyd eleni i gymharu gyda'r llynedd.
- Dengys ein data yr adroddwyd llai o droseddau o gymharu gydag awdurdodau cyfagos.
- Yn nhermau'r ardaloedd lle mae'r troseddau yn digwydd, maent wedi eu lledaenu'n wastad ar draws y sir.

Rhoddodd swyddogion gyd-destun ychwanegol am y ffigurau a roddwyd, gan esbonio eu bod yn gymharol ar gyfer ffigurau poblogaeth cyffredinol ym mhob un o'r siroedd, felly er enghraifft tra bod poblogaeth Sir Fynwy yn 93,000 a Thorfaen yn 92,300, mae niferoedd y troseddau casineb a adroddwyd yn Sir Fynwy yn hanner y rhai a adroddwyd yn Nhorfaen, er fod ganddynt

lefelau poblogaeth tebyg ac mae ein niferoedd yn gymharol uchel o gymharu gyda'r awdurdodau eraill yng Ngwent.

Esboniodd y Tîm Diogelwch Cymunedol y cynhelir cyfarfodydd misol gydag ystod eang o bartneriaid, yn amrywio o addysg, diogelu, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, Ymddiriedolaeth Ambiwllans De Cymru a llawer arall ac nad yw'r Heddlu wedi tynnu sylw fod troseddau casineb yn broblem sy'n dod i'r amlwg. Hefyd yn eu cyfarfodydd wythnosol gyda'n swyddogion troseddu a gostwng, ni chafodd ei godi fel consyrn. Maent yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw'r data ar ben ei hun yn rhoi'r darlun llawn, oherwydd tan-adrodd ar droseddau casineb oherwydd ofn dial a diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cyfrif fel trosedd casineb. Dywedwyd y cynhelir digwyddiad ymwybyddiaeth ar gyfer gyrwyr tacsï, a all fod yn profi troseddau casineb ond nad ydynt yn gwybod am yr angen i wneud adroddiad amdano na sut i wneud hynny. Fe wnaethant hefyd yn esbonio nad yw troseddau casineb yn eistedd ar ei ben ei hun yn aml ond yn eistedd wrth ochr troseddau eraill.

### **Her/Trafodaeth:**

*Mae gennyf ddiddordeb yn sut y gallwn esblygu'r sgwrs o amgylch hyn a chynyddu ymwybyddiaeth yn ogystal â chael tystiolaeth fwy penodol am lle mae troseddau yn digwydd.*

*Os mai dim ond troseddau casineb a adroddwyd sydd yn y ffigurau ac y gwyddom nad yw rhai pobl yn eu hadrodd, yna nid oes gennym ddarlun llawn. Beth ydyn ni'n wneud gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn ei adrodd?*

Rydym yn gweithio gydag ysgolion ar yr agenda bwlio a sut maent yn cofnodi digwyddiadau ac mae casineb yn un o'r categorïau, felly gallwn weithio gydag ysgolion i ddeall beth sy'n digwydd a'u cefnogi wrth fynd i'r afael ag ef.

*Ydych chi'n meddwl fod tan-adrodd sylweddol ar droseddau casineb?*

Mae'n anodd dweud hynny yn benodol am droseddau casineb, gan y gallech ddadlau fod tan-adrodd gyda phob troseddu. Pan siaradwn gyda'r gymuned gofynnwn os ydynt yn siarad gyda'r heddlu am ddigwyddiadau a gofynnant "beth yw'r pwynt?" felly mae cyswllt y cyhoedd gyda'r heddlu yn teimlo fel thema. Y cyfan a wnaiff y data a gyflwynwyd yw dangos i bobl oedd yn ddigon dewr i wneud adroddiad amdano, felly mae'n debyg y caiff troseddau casineb ei dan-adrodd i raddau helaeth iawn.

*Deallaf y gall pobl fod yn ofnus ac eisïau bod yn ddiennw. Os edrychwch ar ardaloedd eraill fel Casnewydd, sy'n fwy amrywiol yn ddiwylliannol, byddai'n ddiddorol gweld y canrannau o'r boblogaeth mewn gwahanol grwpiau o gymharu â'r data ar droseddau casineb.*

Gallwn weld os oes unrhyw ddata ychwanegol y gallwn ei roi ar gyfer Sir Fynwy ond ni fyddai gennym ddata ar grwpiau trawsryweddol neu grefydd, os nad yw pobl wedi dweud hynny wrthym pam oeddent yn ei adrodd, a chadw mewn cof efallai nad yw rhai pobl wedi uniaethu fel rhywedd neu hil neilltuol, a byddai angen i ni gofïom am gywirdeb y data **(Gweithredu: Andy Mason, Sharran Lloyd)**

*Beth arall ydych chi'n ei wneud heblaw siarad gydag ysgolion?*

I chi fod yn gwybod, yn ogystal â'n gwaith gydag ysgolion, rydym hefyd yn gwneud yr un gwaith gyda lleoliadau ieuencid, yn cynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed. Rydym hefyd yn gwneud gwaith pontio'r cenedlaethau ac yn ceisio ymestyn allan i fusnesau, tacsis ac yn y blaen i weld sut y gallwn eu cefnogi, ond fel aelodau etholedig, os teimlwch fod meysydd y gallem ymestyn allan iddynt, gadewch i ni wybod.

Gwasanaethau ieuencid, datrysiadau busnes, tacsis, felly rydyn ni'n ceisio ymestyn allan lle gallwn ond mae'n waith ar y gweill, felly os yw pobl yn ymestyn allan atom ni drwyddoch chi, cysylltwch â ni.

*A yw'r Heddlu yn helpu rhai sy'n adroddwyr cyson ac yn cefnogi dioddefwyr cyson mewn mod sensitif?*

Mae 'Cod Ymarfer Dioddefwyr 2015' ac mae gan y rhai sy'n adodd hawl i wasanaeth estynedig gan yr heddlu.

*Mae gennyf bryderon am radicaleiddio pobl ifanc drwy weithgaredd ar-lein. Pa fesurau ataliol sydd yn eu lle os credwn fod problem?*

Mae 'Panel Atal a Sianel' o Heddlu sy'n ymroddedig i gyflwyno'r rhaglen honno, gan weithio'n unigol gyda phobl, a hefyd yn defnyddio arbenigedd gan Ymddiriedolaeth St Giles ar gyfer amheuron o radicaleiddio cysylltiedig a gangiau a gweithgareddau llinellau cyffuriau.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym wedi gofyn rhai cwestiynau da heddiw ac wedi cael ymatebion gwirioneddol dda ond rwy'n meddwl fod angen i ni ofyn cwestiynau tebyg i'r Heddlu, felly byddwn yn eu gwahodd i'n cyfarfod nesaf i drafod troseddau casineb yn ogystal â llinellau cyffuriau a hefyd wahodd ymddiriedolaeth St Giles.

**Gweithredu: Andy Mason** i anfon gwybodaeth i'r pwyllgor ar 'Banel Atal a Sianelu'.

## **6. Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Nodwyd y rhaglen waith a chytunwyd ar wahoddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar gyfer Llinellau Cyffuriau a Throseddau Casineb.

## **7. Cynllunyydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd.

## **8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2022**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**9. I nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 24 Ebrill 2023**

24 Ebrill 2024.

The meeting ended at **11.14 am**